

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/09/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

Thomas Victor Jones
John Brinley Jones

William Penri Jones
D Andrew Parry

Greta Hughes
William Roger Jones

Barbra Warren
Rhian Parry (Clerc)

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd dim ymddiheuriadau

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Greta Hughes – Ceisiadau cynllunio Crugan C20/0556/38/DT a C20/0633/28/CR

3. Cofnodion Pwyllgor 27/07/2020, Pwyllgor brys 10/08/2020 a Cyfarfod Archwiliad mewnol 07/09/2020

Derbyn Cofnodion 27/07/2020 yn gywir (Cynigwyd: William Roger Jones, Eilydd: Penri Jones) gyda man newid i eirfa yn ôl dymuniad Greta Hughes.

Derbyn Cofnodion cyfarfod brys 10/08/2020 yn gywir (Cynigwyd: Penri Jones, Eilydd: William Roger Jones)

Derbyn Cofnodion 07/09/2020 yn gywir (Cynigwyd: William Roger Jones, Eilydd: Victor Jones) gyda man newid i eirfa yn ôl dymuniad Greta Hughes.

Bydd y Clerc yn trefnu eu gyrru i John Brinley Jones (Cadeirydd) yw arwyddo.

Mae Greta Hughes eisiau amlygu nad oedd yn gallu dodo i bwyllgor 10/08/2020 gan ei bod yn ynysu ac felly ddim yn gallu gadael ei chartref. Ni does darpariaeth y we yn y neuadd felly nid oedd yn bosib gwneud pwyllgor hybrid ychwaith.

4. Unrhyw Fater Brys

Dim

5. Seddi Gwag

Oherwydd bod deiseb o 10 enw wedi ei yrru i Gyngor Gwynedd bydd rhaid cynnal etholiad. Ni ellir gwneud hyn ar hyn o bryd gyda rhwystrau covid-19 felly bydd rhaid disgwyl tan fis Mawrth 2021 ar y cynharaf. Mae John Brinley Jones am rannu gwybodaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd gyda'r aelodau eraill. Nodwyd mai'r Cyngor Cymuned bydd yn ariannu'r etholiad yma.

6. Awdit

- Archwiliad 2017-18 – Mae'r BDO wedi cysylltu gyda'r bwriad i amodi archwiliad i Gyngor Cymuned Llanbedrog. Mae'r Clerc wedi ymateb gyda sylwadau ac yn disgwyl am ohebiaeth yn ôl gan y BDO.
- Yn dilyn cyfarfod Archwiliad Mewnol cytunwyd yr aelodau fod angen bod yn fwy trwyadl i'r dyfodol. Nodwyd bod yr eitemau a chodwyd yn yr archwiliad wedi eu dod ger bron y pwyllgor niferoedd o weithiau. Nodwyd hefyd bod y cyfrifon yn gywir a chyllideb wedi ei wneud llynedd yn barod at eleni. Mae'r pwyllgor am gysylltu gyda chyfrifwr i wneud taliadau'r Clerc i'r dyfodol.

7. Cae Chwarae

Diweddariad gan Barbara Warren yn dilyn cyfarfod Pwyllgor Cae Chwarae; Nodwyd nad yw'n hawdd mynd ymlaen gyda rheoliadau covid-19. Nodwyd bod arian wedi ei dderbyn gan 'Bonus Ball' Pwllheli gyda Claire Russell Griffiths yn cyflwyno'r arian i bwyllgor cae chwarae.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/09/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

8. Y Fynwent Newydd

Dim diweddariad ar y fynwent Newydd.

Nodwyd bod lot o waith clirio yw gwneud eto yn y fynwent. Mae Andrew Pozzi wedi bod yn clirio ond mae bonyn coeden sydd angen ei dynnu a gwaith clirio drain ychwanegol. Mae John Brinley Jones a William Roger Jones yn fodlon cwrdd gyda'r ymgymwrwr i drafod y gwaith sydd angen ei wneud. Mae'r Clerc yn nodi bydd angen gwneud tendr os yw'r gwaith yn fwy na £1000.00.

9. Rhestr eiddo

Dim diweddariad i'r wybodaeth na dderbynnir unrhyw sylwadau gan aelodau'r pwyllgor, mae'r Clerc yn egluro na ellir rhoi gwerth ar eitemau heb unrhyw arweiniad. Nodwyd hefyd gellir rhoi gwerth enwol ar dir sydd yn berchnogaeth y Cyngor ers peth amser.

10. Llwybrau

- Tendr – Mae'r Clerc wedi paratoi dogfennau tendr torri llwybrau. Mae John Brinley Jones yn awgrymu dylid ychwanegu'r llecyn sydd dros y ffordd i'r ysgol a Ffynnon Trwy'r Nant i'r tendr. Bu'r Clerc yn gyrru allan rhestr llwybrau (yn cynnwys rhai sydd o dan ofal Cyngor Gwynedd) a'r tendr i'r holl aelodau ei wyro.
- Nodwyd bod giât wedi torri a bod y Clerc wedi trefnu hefo Cyngor Gwynedd casglu'r giât yw trwsio. Bydd yn cael ei dychwelyd pan fydd yn barod.
- Mae Andrew Parry yn bryderus am lwybr perygl, bydd y Clerc yn cysylltu gyda Chyngor Gwynedd i drafod y sefyllfa.

11. Traethau & Toiledau

Dim diweddariad

12. Cofebion Mynydd Tir y Cwmwd

Dim diweddariad.

13. Coronavirus covid-19

Dim diweddariad.

14. Neuadd y Pentref

Mae grant colled covid-19 o £10,000.00 wedi eu derbyn i gyfrif banc Neuadd y Pentref.

Mae'r holl ddarpariaeth cobid-19 wedi cyrraedd ac wedi ei gosod, mae'r aelodau yn diolch i Barbara Warren am ei gwaith caled parhaus yn trefnu hyn ac yn gwneud gwaith atgyweirio yn y neuadd. Mae Greta Hughes yn bryderus am sefyllfa PAYE Barbara Warren sydd yn glanhau Neuadd y Pentref. Gofynnir I edrych ar hyn i'r dyfodol. Mae trydanwr wedi bod yn edrych ar golau'r cabinet Newydd y diffibriliwr. Mae yna dal ychydig o bryder gyda'r golau, bydd John Brinley Jones yn cysylltu hefo Tomos Hughes i drafod. Cytunwyd i edrych ar y diffibriliwr yn fisol fel y mae'r Clerc wedi bod yn ei wneud i'r dyfodol.

15. Cwynion

Mae'r amser wedi mynd dros y trothwy dwy awr ac felly ni ellir trafod yr eitem yma. Bydd yn cael ei drafod yn y pwyllgor nesaf.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/09/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc - Rhian Parry

Mis Awst £333.33 **£333.33**

Mis Medi £333.33 **£333.33**

Oriau ychwanegol y Clerc

2018-19 - £263.52

2019-20 - £81.80 **£345.32**

Ad-daliad Gweinyddol i'r Clerc

Arnold-Baker on Local Council Administration Eleventh edition - £139.99

Ffolderi - £7.33

Filing Slips – £3.99 **£151.31**

Ashley Hughes – Cefnogol (inc) **£44.39**

Ashley Hughes - Cefnogol **£3.60**

Taliadau wedi eu Derbyn

G D Roberts – trefnydd angladdau **£145.00**

PREASEPT **£10,750.00**

Ceisiadau Cynllunio

C20/0655/38/DT

Gors, Llanbedrog, Pwllheli

Estyniad unllawr ochr

Dim Gwrthwynebiad

C20/0556/38/DT

Fferm Crugan, Llanbedrog.

Trosi adeilad atodol i ffurfio rhan o'r ty

Dim gwrthwynebiad os gofalir bod y caniatad yn gaeth i amodau sydd wedi eu amlinellu yn y cais.

C20/0633/28/CR

Fferm Crugan, Llanbedrog,

Trosi adeilad allanol i ffurfio rhan o'r ty

Dim gwrthwynebiad os gofalir bod y caniatad yn gaeth i amodau sydd wedi eu amlinellu yn y cais.

C20/0651/38/LL

Tir Ger / Land By Tremfan Hall, Llanbedrog

Adeiladu sied amaethyddol pwrpas cyffredinol i storio bwyd anifeiliaid, peiriannau ac I gartrefu anifeiliaid yn achlysurol.

Gwrthwynebu ar sail maint yr adeilad a'r edrychiad. bydd yr adeilad yn weladwy o'r ffordd

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/09/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** - Video Gyfarfodydd StarLeaf
3. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** - Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
4. **Un Llais Cymru** - Cyfarfodydd Rhanbarthol
5. **Bwrdd Iechyd Uned** - Man Anafiadau
6. **Ambiwylans Cymru** - Arolwg Gofalwyr
7. **un llais cymru** - Hyfforddiant sydd ar gael
8. **Age Cymru** - barn pobl hŷn am Covid 19
9. **Llywodraeth Cymru** - Colli cyllid incwm i Gyngorau Cymuned a Thref
10. **Cyngor Gwynedd** - Bwletin Gyda'n Gilydd Awst
11. **Age Cymru** - Dywedwch eich stori wrthym - Age Cymru yn ceisio safbwyntiau pobl hŷn am gyfnod clo Covid 19
12. **Un Llais Cymru** - Uchafbwyntiau Gwybodaeth
13. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** - 10.08.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
14. **AHNE Llyn** - Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn
15. **Un Llais Cymru** - Arweiniadau Arfer Gorau
16. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** - 12.08.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
17. **Bwletin Mantell** - Rhifyn 5 Gwynedd
18. **Cyngor Cymuned Llanllyfni** - Codi tal am fynediad i'r Wyddfa.
19. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** - Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
20. **Heddlu Dyfed Powys** - Gift Card Scam being targeted at Councillors
21. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** - Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
22. **Mantell Gwynedd** - Grant Comic Relief Funding
23. **Un Llais Cymru** - atgoffa - hyfforddiant sydd ar gael
24. **Un Llais Cymru** - Gwe-rwydo - Arwyd ei fod yn sgam
25. **Llywodraeth Cymru** - cylchlythyr Datgarboneiddio mis Awst 2020.
26. **CLILC** - Diweddariad am y coronafeirws gan
27. **AHNE Llyn – Llygaid Llyn 2020** – Rhifyn 14
28. **Llywodraeth Cymru** - Cefnogaeth i'r Sector Treftadaeth yng Nghymru
29. **Un Llais Cymru** - Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Medi
30. **CLILC** - Diweddariad am y coronafeirws
31. **Un Llais Cymru** - Dyddiad cau Dydd Gwener 18 5pm - Colli cyllid incwm i Gyngorau Cymuned a Thref
32. **Prifysgol Bangor** - Y Gymraeg a'r Cyfnod Clo
33. **Bwrdd Iechyd** - Newyddlen Sgyrsiau Covid – Medi
34. **CLILC** - Diweddariad am y coronafeirws
35. **Cyngor Tref Nefyn** - Datganiad i Gyngorau Tref a Phlwy
36. **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Taclo Tipio Cymru
37. **Hunaniaith: Menter Iaith Gwynedd** - Y Gymraeg a Choronafeirws
38. **GIG** - Lansiad Ap Covid-19 y GIG 24 Medi
39. **GIG** - MenTaflenni / trydariadau cymorth Iechyd Meddwl
40. **CLILC** - 21.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • iwan.hughes2@btinternet.com • 07899 954 031 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/09/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

Cais am gyfraniad

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa
2. **BOBATH** – Canolfan Therapi Plant Cymru
3. **Ysgol Llanbedrog** – Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** – Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie** - Cais am gyfraniad
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli** – Cais am gyfraniad
7. **Dawns i Bawb** – Cais am gyfraniad
8. **Theatr Bara Caws** – Cais am gyfraniad
9. **Eisteddfod yr Urdd** – Sir Ddimbych 2020
10. **Victim Support** – Cais am gyfraniad
11. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** - Cais am gyfraniad
12. **Hosbis Dewi Sant** – Cais am gyfraniad
13. **Llangollen International Musical Eisteddfod** – Cais am gyfraniad
14. **Teenage Cancer Trust Cymru** – Cais am gyfraniad
15. **Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw** – Cais am gyfraniad
16. **Ymchwil Canser Cymru** – Cais am gyfraniad
17. **Tenovus** - Helpu Cynnal Gobaith
18. **Tarian Cymru** - Cais am gyfraniad
19. **Ty Gobaith** – Cais am gyfraniad
20. **Calonau Cymru** - Cais am gyfraniad
21. **Marie Curie** – Cais am gyfraniad
22. **O Ddrws I Ddrws** - gario cleifion i apwyntiadau meddygfa, ysbyty, optegydd, chiropodydd ayyb

Penderfynwyd gohirio at bwylgor wyneb yn wyneb.